Taflen Ffeithiau Mabwysiadu / Gofalwyr ar y Gronfa Ymddiriedolaeth Plant (Cymru a Lloegr)

Beth yw'r Gronfa Ymddiriedolaeth Plant?

• Cyfrif cynilo a buddsoddi hirdymor i blant, lle mae plant cymwys yn derbyn £250 (£500 i'r rhai hynny mewn teuluoedd isel eu hincwm) gan y Llywodraeth.
• Bydd y Llywodraeth yn cyfrannu £250 arall yn uniongyrchol i mewn i gyfrifon plant cymwys pan fyddant yn 7 mlwydd oed, â phlant sy'n derbyn gofal a'r rhai hynny mewn teuluoedd isel eu hincwm yn derbyn £250 ychwanegol.
• Gall y plentyn (a neb arall) godi'r arian pan fydd yn 18 mlwydd oed.
• Ni fydd y rhiant na'r plentyn yn talu treth ar yr incwm a'r enillion.

Pwy sy'n gymwys ar gyfer y Gronfa Ymddiriedolaeth Plant?

• Mae pob plentyn a aned ar neu ar ôl 1af Medi 2002 yn gymwys ar gyfer cyfrif Cronfa Ymddiriedolaeth Plant, os yw'n byw yn y DU, mae Budd-dal Plant wedi ei ddyfarnu ar ei gyfer ac nid yw'n amodol ar gyfyngiadau mewnfudo.
• Mae trefniadau arbennig yn sicrhau nad yw plant sy'n derbyn gofal, nad yw Budd-dal Plant yn cael ei ddyfarnu ar eu cyfer, yn colli allan. Os bydd plentyn yn dechrau derbyn gofal cyn i Fudd-dal Plant gael ei ddyfarnu ar ei gyfer, bydd y Llywodraeth yn agor cyfrif Cronfa Ymddiriedolaeth Plant ar ei gyfer â thaliad arbennig o £500.

Pwy sy'n rheoli'r cyfrif Cronfa Ymddiriedolaeth Plant?

• Dim ond person â chyfrifoldeb rhiant am blentyn a all reoli cyfrif Cronfa Ymddiriedolaeth Plant y plentyn hwnnw. Unwaith y bydd wedi ei gofrestru gyda darparwr y cyfrif, y person hwn (a elwir 'cyswllt cofrestredig') yw'r unig berson a all reoli'r cyfrif a symud y cyfrif neu newid y math o gyfrif.
• Gall y plentyn reoli ei gyfrif ei hun pan fydd yn 16 oed.
• Gall rhiant mabwysiadol neu Warcheidwad Arbennig reoli cyfrif Cronfa Ymddiriedolaeth Plant eu plentyn unwaith y bydd ganddynt gyfrifoldeb rhiant ffurfiol am eu plentyn (fel arfer pan wneir y gorchymyn mabwysiadu / y gorchymyn Gwarchodaeth Arbennig).

• Nid oes gan rieni maeth gyfrifoldeb rhiant am eu plentyn maeth felly ni allant reoli cyfrif Cronfa Ymddiriedolaeth Plant y plentyn hwnnw.

• Mae'r Cyfreithiwr Swyddogol yn rheoli cyfrifon Cronfa Ymddiriedolaeth Plant y plant hynny nad oes ganddynt neb priodol â chyfrifoldeb rhiant. Swyddog y Llys Goruchaf yw'r Cyfreithiwr Swyddogol sy'n cynorthwyo pobl ifanc gyda rhai materion cyfreithiol lle nad oes dim person neu asiantaeth addas arall. Ymwelwch â *www.officialsolicitor.gov.uk/functions/child_trust.htm#details* am fwy o wybodaeth am rôl y Cyfreithiwr Swyddogol o ran cyfrifon Cronfa Ymddiriedolaeth Plant.

Sut y gallaf gael rheoli'r cyfrif Cronfa Ymddiriedolaeth Plant?

• Os oes gennych gyfrifoldeb rhiant am y plentyn, dylech gysylltu â'r Ganolfan Gyswllt Gymraeg (0845 302 1489) am wasanaeth Cymraeg yn unig neu'r llinell gymorth Cronfa Ymddiriedolaeth Plant (0845 302 1470) am wasanaeth Saesneg. Bydd y rhain yn gallu dweud wrthych ba ddarparwr (e.e. banc neu gymdeithas adeiladu) sy'n dal Cronfa Ymddiriedolaeth Plant eich plentyn. Bydd angen i chi ateb

rhai cwestiynau diogelwch er mwyn cadarnhau bod gennych gyfrifoldeb rhiant am y plentyn cyn y darperir unrhyw wybodaeth.
• Dylech gysylltu ar unwaith â'r darparwr er mwyn dod yn 'gyswllt cofrestredig' fel y gallwch reoli'r cyfrif. Bydd angen i chi brofi bod gennych gyfrifoldeb rhiant am y plentyn, er enghraifft, gan gyflwyno tystysgrif mabwysiadu.
• Os bydd y darparwr yn eich hysbysu bod y Cyfreithiwr Swyddogol yn gofalu am y cyfrif, bydd angen i chi gysylltu â'r Cyfreithiwr Swyddogol (020 7911 7155) er mwyn dod yn 'gyswllt cofrestredig'. Eto, bydd angen i chi brofi bod gennych gyfrifoldeb rhiant am y plentyn, er enghraifft, gan gyflwyno tystysgrif mabwysiadu.
• Unwaith y byddwch yn 'gyswllt cofrestredig', gallwch symud y cyfrif i wahanol ddarparwr neu i wahanol fath o gyfrif pryd y mynnoch.
• Mae'n bosibl bod cyfrif plentyn mabwysiedig wedi ei sefydlu yn enw blaenorol y plentyn, felly bydd angen i chi wybod yr enw hwn pan fyddwch yn holi ynghylch y cyfrif. Unwaith y byddwch wedi dechrau rheoli'r cyfrif, gallwch ofyn i'r darparwr newid enw'r plentyn ar y cyfrif a sicrhau fod y manylion cyfeiriad cywir ar ffeil.

Beth ddylwn wneud os yr wyf yn derbyn Taleb CYP

• Mae Taleb CYP yn cael ei dosbarthu yn dilyn cais am fudd-dal plant felly allwch dderbyn taleb unwaith yr ydych wedi gwneud eich cais am fudd-dal plant.
• Cysylltwch ar y rhif isod â'r llinell gymorth Cronfa Ymddiriedolaeth Plant fydd yn sicrhau fod y cofnodion ar gyfer cyfrif eich plentyn yn gywir ac yn esbonio unrhyw gamau yr ydych angen ei gymryd
• Gan efallai fod y cyfrif presennol wedi bod yn enw blaenorol y plentyn a'r daleb yn eu henw newydd darparwch y ddau enw pan ydych yn cysylltu â'r swyddfa os gwelwch yn dda.

Sut y gallaf gyfrannu at gyfrif Cronfa Ymddiriedolaeth Plant?

• Gall unrhyw un gyfrannu at gyfrif Cronfa Ymddiriedolaeth Plant plentyn, hyd at gyfanswm o £1,200 rhwng yr holl gyfranwyr bob blwyddyn.
• Os oes gennych gyfrifoldeb rhiant ac nid oes gennych fanylion cyfrif Cronfa Ymddiriedolaeth Plant eich plentyn, gallwch gysylltu â'r Llinell Gymorth Gymraeg (0845 302 1489) am wasanaeth Cymraeg yn unig neu'r llinell gymorth Cronfa Ymddiriedolaeth Plant (0845 302 1470) am wasanaeth Saesneg er mwyn cael gwybod pa ddarparwr sy'n dal y cyfrif. Bydd angen i chi ateb rhai cwestiynau diogelwch er mwyn cadarnhau bod gennych gyfrifoldeb rhiant am y plentyn cyn y darperir unrhyw wybodaeth.
• Os nad oes gennych gyfrifoldeb rhiant, dylech gysylltu â'r Swyddog Cyswllt Cronfa Ymddiriedolaeth Plant yn eich awdurdod lleol (dylai eich gweithiwr cymdeithasol wybod pwy yw'r Swyddog Cyswllt Cronfa Ymddiriedolaeth Plant) a fydd yn gallu cael hyd i fanylion y cyfrif fel y gallwch gyfrannu ato.
• Ni ellir codi arian o'r Gronfa Ymddiriedolaeth Plant unwaith y bydd wedi ei roi i mewn – pan fydd y plentyn yn 18 mlwydd oed bydd yn gallu penderfynu sut i ddefnyddio'r arian.

O ble y gallaf gael mwy o wybodaeth am y Gronfa Ymddiriedolaeth Plant?

• Gallwch ffonio'r Ganolfan Gyswllt Gymraeg am wasanaeth Cymraeg yn unig ar 0845 302 1489 neu'r llinell gymorth Cronfa Ymddiriedolaeth Plant am wasanaeth Saesneg ar 0845 302 1470 neu ymwelwch â *www.childtrustfund.gov.uk*